Annwyl Cwsmer

**Swyddfa Bost® Yr Wyddgrug**
**18 Heol yr Iarll, Yr Wyddgrug, CH7 1AA**

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi ein bod yn newid y ffordd rydym yn rhedeg Swyddfa Bost Yr Wyddgrug.

O fis Tachwedd 2019 bydd y gangen yn cael ei rhedeg gan bartner masnachfraint annibynnol, sef ZCO Cyf, o'r adeilad presennol, lle bydd yn cynnig yr un dewis gwych o gynhyrchion a gwasanaethau. Bydd yna oriau agor estynedig ar brynhawniau Sadwrn.

Ni fydd unrhyw newid i gynllun y gangen nes bod ein partner manwerth newydd yn adnewyddu'r adeilad y flwyddyn nesaf. Mae manylion ar y ddalen wybodaeth am y newidiadau y bwriedir eu gwneud. Pe bai raid cau dros dro am gyfnod, byddwn yn gosod posteri yn y gangen i roi gwybod i gwsmeriaid am Swyddfeydd Post eraill y gallant eu defnyddio yn y cyfamser.

Rydym yn gwneud y newid hwn er mwyn cadw gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y lleoliad hwn. Fe fyddwch yn gwybod am newidiadau digynsail ar ein strydoedd mawr a'r heriau sy'n wynebu llawer o fân-werthwyr. Mae gofynion ein cwsmeriaid yn newid, hefyd. Ein blaenoriaeth yw darparu gwasanaethau diogel sydd yn fasnachol gynaliadwy ym mhob cymuned, er mwyn parhau i ateb gofynion cwsmeriaid yn awr ac yn y dyfodol. Credwn taw'r newidiadau sy'n cael eu wneud gennym yn Yr Wyddgrug yw'r ffordd orau o ddiogelu gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y lleoliad hwn. Mae'r mwyafrif helaeth o'r 11,500 o ganghennau Swyddfa'r Bost, yn fach a mawr, yn cael eu rhedeg yn llwyddiannus eisoes gan ddeiliaid masnachfraint annibynnol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Rydym wedi paratoi posteri i'w harddangos yn y gangen, a bydd taflenni gwybodaeth ar gael hefyd i roi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau hyn. Yn ogystal, rydym wedi ysgrifennu at gynrychiolwyr lleol. Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe baech yn gallu rhannu'r wybodaeth hon ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i Swyddfa Bost Yr Wyddgrug. Os hoffech gael cyflenwad o'r posteri hyn, rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda. Mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd y llythyr hwn.

Ar hyn o bryd rydym yn ymgysylltu â chwsmeriaid yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i Rwydwaith Swyddfa'r Post (sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn), a byddwn yn croesawu sylwadau hyd at 28 Awst 2019. Ni fyddwn yn ymateb i chi'n bersonol, ond wrth i ni gwblhau cynlluniau ar gyfer y gangen byddwn yn gosod crynodeb o'r prif faterion a godwyd ar-lein ac mewn canghennau.

Mae'r ffordd rydym yn rhedeg y gangen hon yn benderfyniad masnachol i Swyddfa'r Post Cyf ac nid ydym yn chwilio am ymateb i'r agwedd hon ar y newid. Fodd bynnag, rydym yn croesawu adborth a sylwadau, yn enwedig ynglŷn â'r canlynol:

- A oes gennych unrhyw sylwadau am fynediad i'r adeilad newydd?
- A oes gennych unrhyw sylwadau am hygyrchedd gwasanaethau Swyddfa'r Post y tu mewn i'r adeilad newydd?

Gallwch rannu eich sylwadau am y newid arfaethedig trwy ein holiadur hawdd a hwylus ar-lein ar postofficeviews.co.uk.

Wrth gyrraedd y safle gallwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i gael hyd i'r ymgysylltiad ar gyfer y gangen hon. Y cod unigryw ar gyfer y gangen hon yw 018614.

